

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 10 Mawrth 10, 2022 50c.



Cannwyll llygad y byd heddiw yw pobl Wcráin. Ymddangosodd y celf stryd trawiadol hwn mewn ale ddiarffordd yng nghefnau Heol y Plwca, yn y Rhath, Caerdydd. Gwnaed y llygad gan yr artist My Dog Sighs. Yng nghannwyll y llygad y mae darlun o'r brifddinas, Kyiv.

## Apêl Wcráin

Y mae Cymorth Cristnogol wedi lansio apêl frys dros Wcráin.


Dywedodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru:

'Trwy'r ACT Alliance, sef clymblaid o fudiadau ffydd dyngarol byd-eang y mae Cymorth Cristnogol yn aelod ohono, mae gennym bartneriaid sy'n ymateb i'r sefyllfa drychinebus. Mi fyddwn yn gweithio gyda phartneriaid yr ACT Alliance i gynnig cefnogaeth i ffoaduriaid sy'n dianc oddi wrth y gwrthdaro. Hyd yn hyn, mae dau o'n partneriaid wedi dosbarthu 28 tunnell o fwyd a nwyddau hanfodol eraill i bobl ar hyd ffin Wcráin. Mae'r sefyllfa yn newid trwy'r amser, felly ceisiaf rannu mwy o wybodaeth gyda chi pan ddaw i law.

'Hoffem annog eich eglwysi i roi yn hael ac i weddio, os gwelwch yn dda. Ynghyd â gwybodaeth sut i roi, mae'r ddolen yn mynd a chi at ddeiseb "Together with Refugees" ac adnoddau gweddi.'

Mi fydd adnodd gweddi Cymraeg ar y gwefan cyn bo hir.

Cliciwch ar  
[www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/ukraine-crisis-appeal](http://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/ukraine-crisis-appeal)



## Neges Gŵyl Dewi'r Llywydd

*Fe anfonwyd y neges ganlynol ar drothwy dydd Gŵyl Dewi at y cyfryngau Cymraeg a Saesneg yn y Deyrnas Gyfunol.*

Mae gorchymyn Vladimir Putin i roi grymoedd amddiffyn niwclear Rwsia ar 'rybudd uchel' yn dangos yr angen am ymgyrch newydd a dwys ar gyfer diarfogi niwclear rhyngwladol.



'Yn ei ymateb chwyrn i sancsiynau rhyngwladol yn erbyn Rwsia am ymosod ar Wcráin, mae Mr Putin wedi codi braw byd-eang drwy gyfeirio at arfau niwclear,' meddai'r Parchg Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

'Ar wahân i straeon newyddion achlysurol am Iran a Gogledd Korea, efallai ein bod wedi tueddu i feddwl mai rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol yw perygl anferth arfau niwclear. Dylai bygythiad Mr Putin fod yn ysgytwad i bob un ohonom.

Rydyn ni wedi gweld pa mor gyflym y trodd y Rhyfel Oer yn Rhyfel Poeth yn Wcráin. Gweddïwn ar Dduw na fydd yn datblygu'n rhyfel niwclear. Dyna fyddai diwedd y ddynoliaeth.

'Ar Ddydd Gŵyl Dewi, dylem gofio bod gan Gymru draddodiad hir ac anrhydeddus o hyrwyddo heddwch – o ddyddiau Henry Richard, gweinidog Annibynnol ac AS, ac Ysgrifennydd cyntaf y Gymdeithas Heddwch Rhyngwladol yn 1850, i'r gwaith ymroddedig sy'n cael ei wneud gan Gymdeithas y Cymod heddiw.

'Wrth i ni weddio dros Gymru a'n pobl y Dydd Gŵyl Dewi hwn, rydyn ni hefyd yn gweddio dros bobl Wcráin a phawb arall sy'n dioddef oherwydd y gwrthdaro ofnadwy yno.'

# Tich Gwilym

Un o bleserau fy llencyndod oedd prynu recordiau diweddaraf y sin roc Gymraeg. Cofiaf gael gafael ar *Sneb yn Becso Dam* gan Edward H a gwrando arni yn gorwedd ar fy hyd ar lawr a'm llygaid wedi cau gan glustfeinio ar bob nodyn a gair. Cofiaf dro arall fod criw ohonom wedi mynd i dreulio wythnos yng ngwersyll yr Urdd Glan-llyn. Yr wythnos honno rhyddhawyd albwm *Halen y Ddaear* gan Injaroc. Treuliodd criw ohonom egwyl gofiadwy yn gwrando ar sain ffres y grŵp hwnnw ar offer disco'r Urdd. Y flwyddyn ddilynol, pan ar gwrs preswyl Côr Ieuenctid Gwynedd o dan arweiniad John Davies, y cyfarwyddwr cerdd, yn y Coleg Normal, Bangor, ymddangosodd albwm *Fflamau'r Ddraig*, gan Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr, a phleser pur oedd cael gwrando arni gyda chyfeillion.



## Rhywbeth bach yn poeni pawb

Un o'r caneuon ar yr albwm hwnnw yw 'Mae rhywbeth bach yn poeni pawb', gyda gwaith gwych ar y gitâr flaen gan y dihafal a'r unigryw Tich Gwilym. Yn aml, byddai Gethyn – un o'm ffrindiau gorau – a minnau'n cael jam yn ei garej ar Siliwen Road ac yn ceisio dysgu rhai o'r caneuon o'r albwm. Ond yn y gân 'Mae rhywbeth bach yn poeni pawb' yr oedd un cord yn peri penbleth inni ac nid oeddem yn gallu datrys beth ydoedd.



Ychydig yn ddiweddarach roedd gig gan Geraint Jarman ym Mhlas Coch, Sir Fôn a mawr oedd yr edrych ymlaen. Nodweddd Plas Coch oedd bod y llwyfan



i'r bandiau yn fychan ac yn isel. Golygai hynny ei bod yn bosibl mynd yn agos iawn at y cerddorion a'r *speakers*. Ar nosweithiau felly roedd ambell i ben dafad a'u pennau yn y *speakers* ac rwy'n siŵr eu bod erbyn hyn yn fyddar fel postyn. Ar achlysur felly, pan oedd Tich yn ei afiaith wrth rwygo unawd wefreiddiol arall ar y gitâr flaen, roedd ciwed o ddynion ifanc, yn sefyll o'i flaen ac am ryw reswm yn pwyntio at y gitâr. Buom yno'n pendoncio'n ddilyffethair i 'Mae rhywbeth bach yn poeni pawb o hyd'.

## Y cord coll

Ar ddiwedd y noson wych a chwyslyd, gyda'n clustiau'n dal i gnulio, gofynnodd Gethyn i mi. 'Nes di weld?' 'Gweld beth?' meddwn i. 'Wel, gweld sut oedd Tich yn chwarae'r cord yn y gân.' 'Na,' atebais yn ffwr-bwt, gan nad oeddw'n wedi manteisio ar y cyfle i ddyngu fel y gwnaeth Gethyn. Yn ystod yr wythnos ddilynol dyma gyfarfod am jam yn y garej, ac fe ddangosodd Gethyn beth oedd y cord colledig. Rwy'n dal i'w gofio. Ac weithiau byddaf yn chwarae'r gân a'r cord a ddysgwyd o fod yng nghwmni'r meistr, Tich Gwilym.

## Y meistr

Mor bwysig yw treulio amser yng nghwmni ein meistr Iesu Grist a dysgu ganddo. Y mae Ef yn ein dysgu am bethau na ddysgw'n unman arall. Mae'n ein dysgu am Dduw a natur ei deyrnas, am gariad maddeugar ac am fywyd newydd; am gyfiawnder a gwirionedd; am edifeirwch ac iachawdwriaeth. Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd yn gyson i bresenoldeb Y MEISTR gan wrando ar ei eiriau a sylwi ar ei esiampl.

Mae munud yn dy gwmi  
Yn newid gwerth y byd.

Yr wyf wedi rhoi esiampl i chwi; yr ydych chwithau i wneud fel yr wyf fi wedi ei wneud i chwi.

Ioan 13:15

## Coleg yr Annibynwyr Cymraeg Cyrsgiau'r Gwanwyn

Darllen, deall a dehongli  
Gair Duw heddiw

Astudio'r Beibl yn ein  
cyd-destun ni

Dirnad a datblygu doniau yn  
ein heglwysi

7 o'r gloch, nos Lun 14 Mawrth  
BETI-WYN JAMES, Caerfyrddin

7 o'r gloch, nos Fawrth 22 Mawrth  
ALUN TUDUR, Caerdydd

CWRS DEHONGLI'R  
YSGRYTHURAU  
Yr Actau a'r Epistolau

7.00 pob nos Fercher,  
16 Mawrth – 23 Mawrth  
ALED JONES, Cyfarwyddwr a  
Chydlynnydd Hyfforddi'r Coleg

Croeso cynnes iawn i bawb

Bydd pob cwrs ar-lein eleni

Manylion pellach a dolenni  
Zoom oddi wrth  
aled@colegyrannibynwyr.cymru

## PROSIECT DIGIDOL DENMAN 2022

Gan ein bod ni parhau i fod mewn cyfnod gwahanol i'r arfer, eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu fideo byr (dim mwy na 2 funud o hyd) ar y thema:

## Rheswm i ddathlu

'Dewch, gadewch i ni ganu'n llawen i'r Arglwydd.'

Salm 95:1

Ym mlwyddyn dathliadau 150 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, pa resymau sydd gennym i ddathlu fel Cristnogion yng Nghymru heddiw?

Anfoner eich fideos at  
rhodri@annibynwyr.cymru erbyn 15  
Mehefin 2022.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynnyddol yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â  
Thŷ John Penri: 01792 795888 neu  
undeb@annibynwyr.cymru

# Yr Adran Gydenwadol

## Cyhoeddi enillydd Emyn i Gymru 2022

Fel rhan o ddathliadau *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* yn drigain oed, lansiwyd cystadleuaeth cyfansoddi emyn yn gynharach eleni. Mewn rhaglen arbennig ar 27 Chwefror cyhoeddwyd mai Eirian Dafydd oedd awdur y geiriau buddugol, gyda'i hemyn 'Gweddi'r Pererin'. Fe'i canmolwyd yn fawr gan y beirniaid, John Gwilym Jones a Catrin Alun, am emyn gafaelgar â delweddu cryf. Yn dilyn y cyhoeddiad aeth Aled Davies ati i'w chyfweld ar ran *Cenn@d*.

**Eirian – yn y lle cyntaf, llongyfarchiadau mawr i ti ar greu emyn mor odidog, ac mor berthnasol i'n cyfnod. Fedri di rannu ychydig o'th hanes a'th fagwraeth â ni?**

Gan mai gweinidog oedd fy nhad, y diweddar Barchedig Trefor Davies Jones, cefais fy magu mewn dwy ardal yn y gogledd – Blaenau Ffestiniog a Llannerch-y-medd ar Ynys Môn. Y pynciau gwyddonol aeth â'm bryd yn Ysgol Syr Thomas Jones yn Amlwch, ac yn ddeunaw oed es i'r brifysgol yng Nghaerdydd a graddio mewn Biocemeg. Arhosais ymlaen wedyn i wneud gradd doethuriaeth cyn gwneud gwaith ymchwil am rai blynyddoedd ac yna newid cyfeiriad a mynd i ddysgu yn Ysgol Gyfun Cymer Rhondda.

**Beth am y gwreiddiau ysbrydol ac unrhyw ddylanwadau mawr ar dy fywyd?**

Bu fy nhad yn ddylanwad yn sicr oherwydd y modd yr oedd yn ceisio byw'r bywyd Cristnogol yn ei waith bob dydd a'i ymwneud ag eraill. Ni allaf honni fy mod yn cofio unrhyw un o'i bregethau'n arbennig, ond mae'r geiriau adnabyddus hyn am Tom Nefyn yn wir am fy nhad hefyd: 'o'i holl bregethau i gyd / y fwyaf oedd ei fywyd'.

**Cofiw i ti ennill hefyd yn eisteddfod rithiol *Cenn@d* y llynedd. Faint o emynau wyt ti wedi eu creu erbyn hyn?**

Ennill ar yr englyn a wnes yn eisteddfod rithiol *Cenn@d*. Ar y pryd roeddwn wedi dechrau meddwl am ysgrifennu emyn ar gyfer Sul yr Hinsawdd, ond nid oedd yn fwy na syniad annelwig yn y pen erbyn y dyddiad cau. Ond fe luniwyd yr emyn erbyn Sul yr Hinsawdd. Ysgrifennais emyn hefyd ar gyfer cyfnod y *Grwys* y llynedd yn dilyn her gan Gwilym, y gŵr, i wneud rhywbeth am y diffyg emynau ar gyfer y tymor yma.



**O ble daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer yr emyn arbennig hwn?**

Y bwriad gwreiddiol oedd ceisio llunio emyn ar gyfer y cyfnod ôl-Covid, yn dilyn y tristwch o ddeall na fyddai rhai capeli'n ailagor eu drysau a sylweddoli bod rhai aelodau wedi cilio dros y ddwy flynedd diwethaf. Ond wrth ddatblygu'r emyn fe aeth ar drywydd ychydig yn wahanol a dod yn weddi i unrhyw un ar unrhyw adeg wrth deimlo bod amgylchiadau'n gwanhau ei fydd. Defnyddiais ddameg y Mab Afradlon fel delwedd o droi am adre gan wybod bod y Tad yno, yn aros i groesawu'r afradlon yn ôl.

Ym mhenillion 2 a 3 mae cyfeiriadau mwy personol hefyd, lle mae sôn am iachâd. Bùm yn dioddef o psoriasis er pan oeddwn yn 5 oed, ac yn blentyn ac oedolyn ifanc treuliais sawl cyfnod yn yr ysbty. Yn fy ugeiniau cynnar es i i oedfa gyda'r Weinidogaeth lacháu. Yno maent yn eich bendithio ac yn gweddïo drosoch trwy arddodiad dwylo, a dyna sydd tu cefn i'r llinellau 'a themlo'r llaw, sy'n estyn i'm hiacháu' a 'daw cyffro dy gyffyrddiad'. Rhaid ychwanegu bod y Weinidogaeth lacháu wedi bod yn gweddïo dros of am flynyddoedd wedyn ac yn sgil hyn fe ddaeth gwellhad anhygoel os nad iachâd llwyr.

**Pa emynwyr wyt ti'n hedmygu eu gwaith? Oes 'na rywrai wedi dylanwadu arnat?**

Anodd iawn yw ateb hwn gan fy mod yn edmygu gwaith y rhelyw o'n hemynwyr. Haws yw nodi'r math o emynau sy'n apelio

ataf neu wedi dylanwadu arnaf - y rhai â neges syml ond sydd hefyd fel pe baent yn siarad yn uniongyrchol â fi neu'n mynegi profiadau y gallaf uniaethu â hwy.

**Petaet yn gorfod dewis UN emyn fel dy ffefryn, pa un fyddai hwnnw?**

Tasg sy'n anelu at fod yn amhosibl yw hon. Ond, o orfod dewis, emyn y diweddar Barchedig John Roberts, 'Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr' (*Caneuon Ffydd*, 758). Mae'r emyn yn sôn am law'r Ceidwad yn gafael a'r gynhafiaeth a geir o hynny.

**O gofio bod angen creu emyn-dôn ar gyfer y geiriau, pa fath o dôn fyddet ti'n dymuno'i gweld? Oes gen ti gyngor neu arweiniad i unrhyw ddarpar gyfansoddwyr?**

Mae'r mesur (11.11.11.10) yn un nad oes tòn iddi yn *Caneuon Ffydd*, er nad oeddwn yn ymwybodol o hynny wrth ddechrau ysgrifennu'r emyn. O ran arweiniad i ddarpar gyfansoddwyr, hoffwn dôn ganadwy, un a fyddai'n aros yn y cof ar ôl ei chlywed ac yn rhwydd i gynulleidfa oedd ei dysgu.

**Gweddi'r Pererin**

Fy Nuw, fy Nhad, pan giliaf i'r cysgodion yn wan fy ffydd, yn blentyn tlawd afradlon, cyfeiria fi at loches y fforddion lle byddi di, yn disgwyl im nesáu.

Ac wrth nesáu, rhof heibio fy ffolineb wrth geisio'r ffordd i fywyd o ffyddlondeb; trwy niwl fy myd, synhwyro'th bresenoldeb a themlo'r llaw, sy'n estyn i'm hiacháu.

A thrwy'r iacháu, daw cyffro dy gyffyrddiad yn brofiad byw, yn gyfrwng fy adfywiad; er gwendid ffydd, o obaith daw arddeliad a'th gariad di yn foddion i'w gryfhau.

Ar ôl cryfhau a'm derbyn yn etifedd o fewn dy byrth, caf brofi o'th ddigonedd; rhyfeddu wnaif, O Dad, at dy drugaredd gan aros byth, i'th foli a'th fwynhau.

Yn dilyn cyhoeddi enillydd geiriau'r emyn, mae *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* yn eich gwahodd i gyfansoddi emyn-dôn ar gyfer 'Gweddi'r Pererin'. Bydd gwobr o £200 i'r cyfansoddwr buddugol. Ceir manylion llawn trwy glicio ar y [ddolen](#)

## Arweinwyr ffydd yn annog diwygio'r Bil Ffoaduriaid

Mae arweinwyr prif enwadau Cristnogol a chyrrff eglwysig Cymru i gyd ymhlith dros fil o arweinwyr ffydd ar draws gwledydd Prydain sydd wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y Deyrnas Unedig yn ei annog i ailystyried y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau. Mae'r arweinwyr, sy'n cynrychioli chwe phrif grŵp ffydd y Deyrnas Unedig, yn dweud eu bod 'wedi eu harswydo ac wedi dychryn am ganlyniadau posibl' y Bil ac yn galw ar y Prif Weinidog i wneud newidiadau brys 'hyd yn oed mor hwyr â hyn'. Yn ôl Cyfrifiad 2011 y chwe phrif grŵp ffydd yw Cristnogaeth, Islam, Iddewiaeth, Hindŵaeth, Sikhiaeth a Bwdhaeth.

Mae'r llythyr, a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2022, y diwrnod y bydd y Bil yn cychwyn ar ei gamau olaf yn Nhŷ'r Arglwyddi – y cyfle olaf hollbwysig i wneud newidiadau – yn datgan: 'Cyhyd ag y bydd gwrthdaro ac anghyfiawnder yn y byd, bydd pobl ar eu cythlwg yn ceisio lloches rhag rhyfel, erledigaeth a dioddefaint. Allwn ni ddim cau ein drws arnynt, ond dyna'n union y mae'r Bil hwn yn ei wneud.'

'Mynnwn mai'r gwerthoedd sy'n clymu dinasyddion y Deyrnas Unedig at ei gilydd, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag urddas a bywyd dynol, fydd yn cael eu niweidio'n sylfaenol gan y Bil hwn.'

Yng nghyd-destun gwrthdaro byd-eang cynyddol, gan gynnwys y gwrthdaro yn Wcráin, mae'r ffordd y mae'r Bil yn tanseilio gallu'r Deyrnas Unedig i gefnogi pobl sy'n ffoi rhag gwrthdaro yn amlycach fyth.

Mae'r llythyr yn galw ar Brif Weinidog y Deyrnas Unedig i wneud newidiadau sylweddol i'r Bil. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi'r gorau i gynlluniau'r llywodraeth i gyfyngu ar hawliau pawb sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig yn ceisio noddfa fel ffoaduriaid y tu allan i gynlluniau a drefnwyd ymlaen llaw. Ymhlith y bobl hyn mae'r rhai sy'n dod trwy lwybrau anghonfensiynol, er enghraifft mewn cychod neu loriau, ac yn cael eu trin fel troseddwyd. Dywed y llofnodwyr fod y polisi hwn wedi'i lunio 'heb sail o ran tystiolaeth na moesoldeb'.

Mae'r llofnodwyr hefyd yn honni bod yn rhaid i'r llywodraeth fynd i'r afael ar fyrder â'r methiant i sefydlu llwybrau diogel drwy'r Bil. Byddai hynny'n helpu pobl sy'n



ceisio noddfa i gyrraedd y Deyrnas Unedig, a dywedir bod y methiant hwnnw'n tanseilio nodau sylfaenol y Bil. Maen nhw'n annog y Prif Weinidog i fod yn 'dosturiol ac uchelgeisiol' trwy agor cynlluniau megis aduniad teuluol, llwybrau ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid ar eu pen eu hunain yn Ewrop ac adsefydlu.

Mae cynrychiolwyr o gymunedau ym mhob sir yn Lloegr wedi arwyddo'r llythyr, ac mae yna gynrychiolaeth eang o Gymru a'r Alban. Mae llawer o gymunedau ffydd ar draws y Deyrnas Unedig yn gallu tystio ar sail profiad i effaith gadarnhaol llwybrau diogel ar bobl yn eu cymunedau, trwy weithio mewn mentrau integreiddio ffoaduriaid, rhaglenni noddï cymunedol a darparu cymorth brys i ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd o Afghanistan.

Mae'r llythyr yn galw ar y Prif Weinidog i ddangos 'arweinyddiaeth wleidyddol' a hybu 'tosturi, bywyd ac urddas dynol', ac mae arweinyddion ffydd wedi gofyn i'r Prif Weinidog eu cyfarfod i drafod eu pryderon.

Dywedodd y Rabi Jonathan Wittenberg, Uwch Rabi Iddewiaeth Masorti: 'Cafodd fy nau riant eu croesawu yma fel ffoaduriaid. Dysgais o'u profiadau i groesawu ffoaduriaid yn fy nhŷ a gweithio gyda fy nghymuned i gefnogi llawer o bobl sy'n cael eu gorfodi i ffoi o'u mamwlad yn ofni am eu bywydau.'

'Rwyf wedi gwrandao ar hanesion torcalonnus am deithiau ceiswyr lloches

ifanc sy'n ysu am gael eu haduno â pherthnasau yn y wlad hon. Mae'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau yn cynnig ein bod yn cau'r drws arnynt mewn modd creulon, gan eu gadael heb unrhyw gyfle am ddiogelwch a dyfodol. Ni allwn adael i hyn ddiwydd. Rwy'n erfyn ar y llywodraeth i agor llwybrau diogel a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn y rheini sydd, yn eu hangen dirdynol am loches, yn dod o hyd i ba ffordd bynnag y gallant i gyrraedd noddfa.'

Wrth siarad ar ran ei gofalaeth Annibynnol yng Nghaerfyrddin, fe ddywedodd Beti-Wyn James, Llywydd Undeb Annibynwyr Cymru eleni: 'Fel cynulleidfya sydd wedi croesawu teulu o ffoaduriaid i fyw yn ein tŷ capel, rwy'n credu bod y mesur yma'n un creulon ac afresymol. Mae'n greulon am ei fod am wneud pobl sydd wedi gorfod ffoi o'u gwlad eu hunain ac sy'n ceisio dulliau afreolaidd o gyrraedd Prydain yn droseddwyd. Mae'n afresymol am nad yw'n dweud pa fesurau mae llywodraeth y Deyrnas Unedig am eu cymryd i greu ac ehangu sianelau rheolaidd a diogel a fyddai'n galluogi ffoaduriaid i gyrraedd y wlad heb dorri'r gyfraith.'

Cydlwyd y llythyr gan y Tîm Materion Cyhoeddus ar y Cyd, sy'n cynnwys yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig, yn gweithio gydag Eglwys yr Alban.

[Gellir darllen testun llawn y llythyr yma.](#)

### S4C

#### Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 13 Mawrth, am 7:30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Bydd Ryland 'nôl yng nghaffi'r Hedyd Mwstard yn Llanbedr Pont Steffan i ymweld â'u heglwys newydd sbon a chawn gwrdd ag unigolion sydd wedi bod yn brysur yn rhoi ail fywyd i festri Capel Bryngwenith.

Dyma gopi o glychlythyr mis Mawrth –

<https://express.adobe.com/page/tv4oZzSukdxw/>



#### Caniadaeth y Cysegr

Sul, 13 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp

Ymunwn ag R. Alun Evans sy'n cyflwyno cyfres ar amrywiol themâu. Yr amgylchfyd sy'n mynd â'i fryd yn y rhaglen hon o ganu mawl.

#### Oedfa Radio Cymru

Sul, 13 Mawrth, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Alun Tudur, Caerdydd

# Myfyrdod y Grawys

## Cyfes o chwe astudiaeth gan Gyngor yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

### Grawys 2

Darllen Rhufeiniaid 10:11-13



Llun gwreiddiol: R. Miller/flickr Diversity

Y mae'r Ysgrhythur yn dweud, "Pob un sy'n credu ynddo, ni chywilyddir mohono." Nid oes dim gwahaniaeth rhwng Iddewon a Groegiaid. Yr un Arglwydd sydd i bawb, sy'n rhoi o'i gyfoeth i bawb sy'n galw arno. Oherwydd, yng ngeiriau'r Ysgrhythur, "bydd pob un sy'n galw ar enw yr Arglwydd yn cael ei achub, pwy bynnag yw".

#### 1 Rhywbeth i'w drafod gyda'n gilydd

\*Beth ydych chi'n feddwl mae'r darn hwn yn ei ddweud wrthym am natur Duw a'r hyn mae Duw eisiau ar gyfer dynoliaeth? Sut mae Duw yn ein hannog i goesi ffiniau a dangos mai'r un Arglwydd sydd i bawb?

\*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, a hithau'n cael ei phlagio gan Caradog, fe geisiodd loches mewn eglwys. Ym mha ffyrdd y gall yr eglwys fod yn lloches i bobl heddiw? Sut mae modd i gysylltiadau eciwmenaid a thraws-ffiniol atgyfnerthu'r Eglwys mewn cyfeillach? A oes yna raniadau sy'n crefu am gael eu trwsio?

#### 2 Rhywbeth i adfyfrio arno

\*Mae'r Ysgrhythur yn ein cyfarwyddo i feddwl am haelioni a thrugaredd Duw. Ydym ni'n dangos yr un haelioni a thrugaredd yn ein bywydau ein hunain fel Cristnogion? A oes pobl o'n cwmpas sydd angen Iesu Grist ond sy'n cael eu 'cywilyddio' gennym ni trwy ein meddyliau, ein geiriau a'n gweithredoedd? Sut mae modd i mi fyw bywydau Cristnogol mwy hael a mwy trugarog?

\*Lle'r ydych yn gweld haelioni a thrugaredd Duw yn hanes y Santes Gwenffrewi? Sut gallai adrodd ei stori helpu eraill i weld mwy o'r hyn mae'r Ysgrhythur yn ddweud?

#### 3 Rhywbeth i'w wneud

\*Meddylwch am unigolyn, neu deulu, neu

hyd yn oed gymuned yn eich ardal leol y mae eu pobl yn wahanol iawn i chi. Efallai eu bod yn wahanol o ran ethnigrwydd, treftadaeth, diwylliant, crefydd, barn, defnydd o iaith, neu yn syml iawn, cas a hoff bethau. Meddylwch am ffordd y gallech arddangos haelioni tuag atynt hwy a gwneud hynny. Gall fod yn rhywbeth mor syml â galw heibio, esbonio mai'r Grawys yw hi a holi a oes unrhyw beth yr hoffent hwy i chi weddio drosto. Neu fe allech drefnu digwyddiad a'u gwahodd iddo, neu ddod o hyd i ryw beth ymarferol i'w wneud gyda'ch gilydd.

\*Ystyriwch pam mae'r syniad o 'bererindod' yn dod yn fwyfwy poblogaidd gyda'r sawl sy'n chwilio am ysbrydolrwydd. Allwch chi feddwl am rai pobl yn eich ardal leol chi, nad ydynt yn Gristnogion, ond a allai fwynhau gwahoddiad i ymuno â phererindod y Santes Gwenffrewi? Gallech ddefnyddio'r adnoddau am y Santes

Gwenffrewi i wneud yn siŵr fod modd i chi ateb unrhyw gwestiynau am pam y mae'r bererindod yn digwydd a beth yw ei stori hi. <<https://www.lichfield.anglican.org/season-of-pilgrimage.php>>

#### 4 Treiddio'n Ddyfnach

\*Gwyddom o'r Actau fod llawer o bobl yn argyhoeddedig fod gwahaniaethau mawr rhwng Iddewon a Groegiaid. Ac yr oedd hyn yn codi cwestiwn diwinyddol o gryn bwys i'r Eglwys Fore – a oedd iachawdwriaeth yn Iesu Grist ar gael i bawb neu beidio? Felly mae'r geiriau hyn o'r Rhufeiniaid yn her ddifrifol i ni hyd yn oed heddiw. Er enghraifft, mae rhai pobl yn credu bod rhai mewnfudwyr yn cael tröedigaeth at Gristnogaeth er mwyn hawlio lloches. A yw adroddiadau o'r fath yn gwneud i ni deimlo'n llai hael? Sut ydym ni'n cysylltu â'r geiriau 'bydd pob un sy'n galw ar enw yr Arglwydd yn cael ei achub'?

\*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, gwelwn wraig oedd ar fin cael ei threisio yn cael ei hachub yn gorfforol ac ysbrydol. Ond ar yr un pryd, roedd hefyd yn cynllunio i ddianc a defnyddio ei ffydd a'r Eglwys i ddianc rhag cael ei defnyddio fel eiddo rhywun. Ydych chi'n meddwl mai ei bwriad oedd 'defnyddio' yr Eglwys i ddianc o'r byd roedd yn byw ynddo? Sut gall ei stori ein helpu i ymdrin â chwestiynau dyrys ynghylch tröedigaeth a galwadau ar haelioni Cristnogion?

#### 5 Gweddï

Arglwydd Iesu Grist,  
diolchwn i ti am dy drugaredd hael  
at bawb sy'n galw arnat ti.  
Cynorthwya ni y Grawys hwn i fod yn gyson  
yn fwy caredig,  
yn fwy hael, yn fwy cariadus tuag at eraill.  
Helpa ni hefyd, i garu cyn i ni farnu,  
i weld yr hyn sy'n ein huno yn hytrach na'n  
gwahanu:  
i fod yn gyfrwys fel seirff a diniwed fel  
colomennod.  
Er mwyn dy enw,  
Amen



## Hanes Ebeneser, Eglwys yr Annibynwyr Cymraeg, Cwmtwrch Uchaf

*Wrth i'r eglwys arbennig hon gael ei datgorffori eleni, dyma beth o hanes yr achos.*



Mae'n bwysig nodi, yn y lle cyntaf, mai'r hynaf o holl eglwysi Anghydfurfiol pen uchaf Cwm Tawe a Chwmaman yw Cwmllynfell ac mai merch yr eglwys honno yw Eglwys Annibynnol Cwmtwrch. Y fam yn dyddio 'nôl i ddegawd cyntaf y ddeunawfed ganrif ac Ebeneser ond i ddegawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyna pryd gwelwyd Cwmtwrch Uchaf yn datblygu i fod rhywbeth yn debyg i beth yw heddiw, a gan mai Annibynwyr oedd mwyafrif y pentrefwyr, gwelwyd llawer ohonynt yn cerdded pob bore Sul i fyny i Gwmllynfell ar hyd y rheilffordd, neu dros Domenowen.

Am y gweddill o'r Suliau gwelwyd hwy yn cynnal ysgolion Sul a chyrrddau gweddi yn eu cartrefi, ystafelloedd hir ambell dafarn ac yn stordy'r rheilffordd ger gorsaf Gwŷs. Canlyniad cael eu troi allan o'r lle hwnnw, gan yr Anglicaniaid yn 1859, oedd iddynt adeiladu, ac agor, y Temperance Hall, y flwyddyn ganlynol; yr enw wrth gwrs, yn dyst i'r ffaith bod y mudiad dirwestol yn ffynnu ar y pryd, fel oedd yr iaith Saesneg o ganlyniad i effaith 'Brad y Llyfrau Gleision'.

### Adeiladu addoldy

Sylweddolwyd cyn hir, fodd bynnag, bod angen adeilad arall, llawer mwy addas ar gyfer cynnal gwasanaethau crefyddol cyflawn yn y pentref, a gyda llwyr fendith y fam eglwys yng Nghwmllynfell, cychwynnodd y gwaith anferth o ddewis darn o dir, ei brynu, codi capel hardd arno, a thalu am bopeth oedd yn gysylltiedig â'r fenter honno.

Yn y diwedd, ar gychwyn degawd

olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg penderfynwyd prynu darn o ardd y New Tredegar Arms yr ochr arall i nant Gwŷs. Y perchennog oedd Jane Watkins, ond gan mai Arglwydd Tredegar oedd perchennog y brydles rhaid hefyd oedd talu pum swllt y flwyddyn i hwnnw o hynny ymlaen.

Yn ystod yr hanner cyntaf o 1892, hefyd, penderfynwyd dewis deg dyn i fod yn aelodau o bwyllgor adeiladu'r capel newydd ac mai dyn lleol, Owen Powell oedd y pensaer a chwmi lleol Mri Williams a Morgan yr adeiladwyr. Cerrig cwar oedd i dalcen y capel a cherrig o'r afon Twrch gerllaw a ddefnyddiwyd wrth adeiladu gweddill yr adeilad. Lleolwyd y pulpud yn y pen isaf, ochr yr afon. Mae'r llawr yn gwyro lawr tua'r set fawr a'r pulpud sy'n *feature* unigryw.


Dechreuwyd ar dorri tir y capel ar 7 Tachwedd 1892, pryd hefyd gosodwyd y concrit cyntaf, ac ar 15 Rhagfyr dechreuwyd codi'r muriau. Nid oedd bwriad codi oriel ond newidiwyd y cynllun a gosodwyd rhai ar dair ochr i wynebu'r pulpud. Dewisodd yr aelodau, drwy bleidlais yr enw 'Ebeneser' ar y tŷ cwrrd. 'Tabernacl' oedd ail, allan o 16 cynnig.

### Cwrdd agoriadol

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn y tŷ cwrrd newydd ar nos Fercher, 27 Mehefin 1894, 22 mis ar ôl i Annibynwyr Cwmtwrch Uchaf gynnal eu cwrdd cyntaf, fel eglwys, ar wahân i Gwmllynfell, 'nôl ar 28 Awst 1892 yn y Temperance Hall. Y Parchg John Rees, Cwmllynfell oedd gweinidog Ebeneser, tan iddo ymddeol yn 1908. Daeth 171 o aelodau Cwmllynfell, sef trigolion Cwmtwrch Uchaf i'r eglwys newydd yn 1892. Roedd chwech ohonynt yn ddiagoniaid a nhw felly oedd diaconiaid cyntaf yr achos, gyda 40 aelod newydd sbon o'r pentref.

### Organ bib

Bu'n rhaid aros tan 1920 cyn gweld organ ysblennydd newydd, gyda 43 o bibellau, yn cael ei chodi y tu cefn i'r pulpud ym mhen blaen yr adeilad. Rhaid oedd symud y sedd fawr i wneud hyn ar gost o £500 (£24,000 arian heddiw); y gwneuthurwyr oedd Sweetland Organ Company, Caerfaddon. Fe'i cysegrwyd, yn y lle cyntaf, i'r morwr a chwe milwr



collodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ychwanegwyd dwy gofeb arall i'r milwr, dau forwr a dau o'r llu awyr lladdwyd yn yr Ail Ryfel Byd.



### Bugeiliaid

Cost adeiladu Ebeneser oedd £1,500 (tua £200,000 arian heddiw). Roedd swm hwn yn aruthrol o fawr i bentref bychan ac yn faich i'r teuluoedd glofaol lleol. Ar ben hyn, rhaid oedd cynnal y Temperance Hall tan iddo gael ei werthu a'i droi'n dŷ annedd ddechrau'r ganrif bresennol. Cyflogwyd saith gweinidog, rhwng 1892–1977 a chadwyd mans am gyfnod byr ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Dyma enwau a dyddiadau'r gweinidogion:

John Rees, 1892–1908  
Daniel Adams, 1911–13  
T. J. Peregrine, 1921–27  
Ivor Wynne Williams, 1934–44  
Idris Hopcyn, 1945–51  
B. Cynwyn Davies, 1952–66  
Tudor Phillips, 1968–77

Gwelwyd cynnydd mawr yn rhif yr aelodau tan ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Roedd 439 yn 1943 a chant o blant yn yr ysgol Sul yn y Temperance Hall a hanner cant o oedolion yn y capel. Ond, gwelwyd cwymp sylweddol o'r 1980au ymlaen. Daeth yr ysgol Sul i ben a'r sawl a fedyddiwyd yn syrthio o 12 yn 1942 i neb o gwbl, ambell flwyddyn yn ddiweddarach. Syrthiodd rhif yr aelodau

*parhad ar dudalen 7*

## Barn Annibynnol

### WCRÁIN

'O na bai fy mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynnon o dagrau.'

(Jeremeia 9:1)

Mae gweld y lluniau o Wcráin yn dorcalonnu, adeiladau a chartrefi wedi'u chwalu, cerbydau ar dân, pobl yn ffoi am eu bywyd. Gweld o bell wnawn ni, ond yn nes nag erioed o'r blaen.

#### FFOI

Dychmygwch fod yn ei chanol hi! Dychmygwch fod yn fam yn arwain tri phlentyn bach tua'r ffin â Gwlad Pwyl. Wyddoch chi ddim ble'r ewch chi, does neb yn aros amdanoch. Fydd croeso i chi? Yr unig eiddo sydd gennych yw un bag. Gadawsoch gartre a phopeth oedd yno. Ddewch chi 'nôl byth? Welwch chi

## Hanes Ebeneser – parhad

i ddau ddwsin erbyn 2021 a deg yn addoli'n gyson ar y Sul: naw gwraig ac un dyn a'r mwyafrif ohonynt yn eu 80au hwyr neu 90au cynnar.

#### Newid cymdeithasol

Collwyd aelodau a wasanaethodd yn swyddogion ffyddlon a chydwybodol dros y blynyddoedd a disgynnodd baich ar ysgwyddau rhai oedd yn barod yn eu 80au hwyr. Demograffi'r eglwys, a'r pentref, lladdodd ni yn y diwedd h.y. ein hoedran a'n hiechyd. Roedd Cwmtwrch Uchaf, tan yn ddiweddar, yn rhan o'r Fro Gymraeg, lle'r oedd yr iaith Gymraeg, y ffordd o fyw Cymreig a'r ffydd Gristnogol 'yng nghlwm â'i gilydd' fel y dywedodd y diweddar Ieuan Gwynedd Jones, Athro Hanes Cymru a diacon yn Ebeneser, am gyfnod. Roedd pawb yn siarad Cymraeg a bron pawb yn aelodau yn Ebeneser. Gydag amser gwelwyd mwy a mwy o'r ieuencid yn gadael am addysg uwch a neb yn dychwelyd adref. Dim teuluoedd newydd, ifanc, Cymraeg a Chymreig yn symud yma a'r tai yn syrthio fwyfwy i ddwylo pobol ganol oed neu hŷn o Loegr. Y pentref, felly, fel y gweddill o Gymru, Prydain ac Ewrop yn troi'n ôl-Gristnogol.

Cynhelir yr oedfa ddatgorffori yn Ebeneser ar ddydd Sadwrn 2 Ebrill am 2 y prynhawn.

Hywel Gwyn Evans

eich cymdogion eto?

Rydych wedi gadael eich gŵr ar ôl, a'ch brodyr, a'ch tad. Pistolau sydd yn eu llaw, y tro cynta i'r tri gydio mewn gwn, i herio arfau soffistigedig y gelyn.

A'r sŵn dychrynlyd! Seiren, tanio, tanciau, rhu awyrennau rhyfel, sgrech taflegrau, plant yn llefain. Torcalonnu! A'r hyn sy'n y fantol: gwlad rydd ddemocrataidd, yn cael ei chadwyno wrth Moscow unwaith eto.

#### BETH NESA?

Y cwestiwn mawr yw beth fydd Putin yn ei wneud os na fydd yn cyrraedd ei amcan. Gall y sefyllfa ddirywio ymhellach fyth i ddinistr ar raddfa erchyll.

Pa mor ddiogel fydd ffiniau gwledydd eraill a arferai fod dan bawen Moscow? Mae Putin eisoes wedi crybwyll bod bomiau niwclear yn barod ganddo. Nid Wcráin yn unig sydd mewn peryg bywyd. Mae'r posibiliadau yn wirioneddol frawychus. Geiriau Waldo sy'n dod i'r cof:

Beth yw trefnu teyrnas? Crefft Sydd eto'n crocian.  
A'i harfogi? Rhoi'r cylllyll  
Yn llaw'r baban.

Bydd sancsiynau llym yn erbyn Rwsia yn cosbi pawb yn y wlad, ac fel ym mhobman, y tldion fydd yn dioddef waethaf. Ond caiff y Rwsiaid ariannog, yr oligarchiaid bondigrybwyll, weld tro poenus ar fyd. Heb eu cefnogaeth fedr Putin ddim dal ati yn hir.

Tybed ai'r haerllugrwydd hwn yn Wcráin fydd yn ei lorio? Rhaid rhyfeddu at ddewrder pobl gyffredin yn Rwsia sydd yn mentro protestio yn gyhoeddus, yn enwedig o gofio bod arweinwyr sy'n herio'r drefn wedi eu carcharu.

Mae'n galonogol gweld Rwsia wedi ei hynysu, a gweddill y byd yn ei chondemnio, ar wahân i eithriadau prin iawn.

#### EWYLLYS DA

Mae'r gefnogaeth yn ymarferol hefyd, wrth i wledydd agor eu ffiniau i groesawu ffoaduriaid. Mae llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn arfer geiriau da



*Blodyn yr Haul yw blodyn cenedlaethol Wcráin*

ond yn dal i osod rhwystrau yn ffordd ffoaduriaid o Wcráin. Aeth Prydain yn lle pur ddigroeso i geiswyr lloches o bob cyfeiriad. Dyw'r argyfwng presennol ddim fel pe bai yn meddal dim ar agwedd haearnaid Priti Patel a'r Swyddfa Gartre.

Mae'r Beibl yn barhaus yn gosod y dewis o'n blaenau, mellith neu fendith. Ar hyn o bryd, mae erchylltra y tu hwnt i ddychymyg yn bosibl. Neu bydd yr arfog cryf yn syrthio, a'r gwledydd yn ceisio heddwch â'u holl galon. 'Dewis dithau fywyd, er mwyn iti fyw, tydi a'th ddisgynyddion.' (Deutoronomium 30:19)

Ble awn ni i chwilio am gysur yr awr dywyll hon? Mae'n werth gwranddo eto ar Martin Luther King a'i ymgyrch ddi-drais dros gyfiawnder. Cysur mawr hefyd yw cofio unplygrwydd Henry Richard a Lewis Valentine a Chymry mawr eraill.

A diolch am Feibl i'w chwilio yn daer am Efengyl Iesu. Clywch y gair heriol, 'Cerwch eich gelynyon,' a'r gair cysurlon, 'Myfi a orchfygais y byd,' Cawn wybod eto yn nyfnder calon nad oes yn y diwedd rym mwy na chariad Iesu. Hynny a saif.

**Dewi M. Hughes**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*  
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
 Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**  
 ABERTAWA SA7 0AJ  
 Ffôn: 01792 795888  
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

### Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Allweddeiriau 8 Cariad

Pan mae bywyd yn anodd a heriol, gallwn ofyn y cwestiwn: Ydy Duw wirioneddol yn fy ngharu i? Os yw Duw yn fy ngharu i, pam fod y pethau caled hyn yn digwydd i mi?

Wel, ateb y Beibl ydy fod Duw yn caru ei bobl hyd yn oed pan mae eu hamgylchiadau'n anodd. Yn wir, hyd yn oed pan mae bywyd yn faich trwm, gallwn ni fod yn gwbl hyderus fod Duw yn ein caru ni! Sut? Wel, cawn yr ateb yn 1 Ioan 3:16 sy'n dweud: 'Dyma sut yr ydym yn gwybod beth yw cariad: am iddo ef roi ei einioes drosom ni.'

Gallwn wybod fod Duw go iawn yn ein caru am iddo roi ei unig Fab i farw dros ein pechodau. Yn wir, er mor annheilwng ydym fel pobl, fe wnaeth Mab Duw roi ei einioes drosom ni. Bu farw er mwyn wynebu'r pris yr ydym ni'n ei

haeddu am ein pechodau er mwyn i ni brofi maddeuant a bywyd trwy gredu ynddo Ef. Heb os, mae Duw yn caru ei bobl.

Os gofyn rhywun beth yw Duw, atebwn ni mai cariad yw: fe fflamiodd cariad Tri yn Un yn rhyfedd at annheilwng ddyn.

Azariah Shadrach, 1774–1844

### Gwilym Tudur

*Dyma'r olaf o'r myfyrdodau hyn ar allweddeiriau'r Beibl. Diolchwn i'r Parch. Gwilym Tudur am eu rhannu gyda ni.*



Ond yn y pethau hyn i gyd y mae gennym fuddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni. Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymsterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Rhufeiniad 8



## Cyfarfodydd Blynyddol Caerfyrddin Gorff. 7 – 9

Y mae'n llawenydd datgan bod y paratodau ar gyfer y cyfarfodydd blynyddol eleni, yn mynd rhagddynt yn dda ac yr ydym eisoes mewn dyled i gyfeillion caredig Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin am eu hymrwymiad i'r dasg o drefnu. Diolch.

Gobeithio y bydd effeithiau'r pandemig wedi pylu erbyn yr haf gan ein gadael ninnau'n rhydd i fynd a dod fel y dymunwn.

### Penderfyniadau

Bydd cyfle i gyflwyno penderfyniadau i'r Gynhadledd a dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn **dydd Gwener, 20 Mai 2022, fan bellaf.**

## Eglwys Minnie Street, Caerdydd

(Rhif 524 yn y Blwyddiadur)

### Ysgrifennydd Cyhoeddiadau newydd

Mrs Elfrys Davies  
 25 Heol Sant Isan  
 Y Mynydd Bychan  
 Caerdydd CF14 4LU

Ffôn: (029) 2075 5424

E-bost: elfrys.jones@gmail.com